Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel/Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cyfeirnod: AC/181/caf
Dyddiad cyhoeddi: 27 Chwefror 2020

Annwyl Nick

Cyllid y GIG a gwariant ar asiantaethau 2019-20: diweddariad o fewn y flwyddyn

Yr haf diwethaf, casglodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig gan Andrew Goodall a'i dîm ar gyllid y GIG, a dilynwyd hynny â gohebiaeth ysgrifenedig bellach. Roedd eich llythyr at Andrew ar 27 Medi 2019 yn nodi mai uchelgais Llywodraeth Cymru oedd yr ymdrinnid ag unrhyw ddiffyg gweddilliol yn y GIG yn 2019-20 o fewn prif grŵp gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'i bod yn disgwyl y câi holl ddiffygion y byrddau iechyd eu dileu erbyn 2020-21.

Roedd y llythyr yn mynegi amheuon y Pwyllgor ynghylch rhai o'r disgwyliadau hyn, yn enwedig o ystyried yr heriau hirdymor ym Myrddau Iechyd Betsi Cadwaladr a Hywel Dda. Nodai hefyd fwriad y Pwyllgor i gadw golwg ar y sefyllfa, ac ailedrych ar gyllid y GIG a chostau staff asiantaeth y GIG yn ystod haf 2020 neu'n gynharach pe bai arwyddion nad oedd y gwelliant fel y disgwylid.

I gynorthwyo'r Pwyllgor gyda'i waith craffu parhaus, rydym wedi diweddaru ein hoffer data rhyngweithiol ar-lein ar gyfer Cyllid y GIG [Saesneg a Cymraeg] a Staffio Asiantaethau'r GIG [Saesneg a Cymraeg] i roi crynodeb o berfformiad blwyddyn ariannol 2019-20 hyd at 31 Rhagfyr 2019 a rhagolygon GIG Cymru ar gyfer yr alldro ar 31 Mawrth 2020.

Yn y llythyr hwn, rwyf yn rhoi crynodeb byr o'r sefyllfa ddiweddaraf ar gyfer y Pwyllgor, gyda gwybodaeth bellach yn y ddau atodiad.

Cyllid y GIG

Mae'r ail Gyllideb Atodol wedi'i chyhoeddi bellach, ac ar gyfer 2019-20 mae'n dangos bod y gyllideb sy'n gysylltiedig â refeniw iechyd wedi cynyddu o 6.8% mewn termau real.

Mae'r codiadau ariannol sylweddol hyn yn rhai nas gwelwyd yn y GIG ers peth amser. Er bod rhywfaint o'r refeniw a ddyrannwyd wedi cael ei ddefnyddio i

ariannu cynnydd mewn costau cyflog a phensiwn, dylai hefyd hwyluso perfformiad ariannol gwell ar draws GIG Cymru, gan gynnwys symud tuag at uchelgais Llywodraeth Cymru o ddileu'r holl ddiffygion yn 2020-21.

Ar 31 Rhagfyr, roedd cyrff GIG Cymru gyda'i gilydd yn rhagweld diffyg o £72 miliwn ar gyfer 2019-20. Er y byddai hyn yn golygu gwelliant ar alldro y llynedd o ddiffyg o £96 miliwn, mae'n £12 miliwn yn fwy na'r diffyg o £60 miliwn a ragwelid ganddynt ar ddechrau'r flwyddyn, a £32 miliwn yn fwy na'r 'cyfansymiau rheoli' a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyrff iechyd.

Er bod GIG Cymru yn disgwyl sicrhau 17% yn fwy o arbedion nag a gynlluniwyd ganddo ar gyfer y flwyddyn, mae cyfanswm gwerth yr arbedion disgwyliedig hynny yn dal i fod 18% yn is na'r llynedd. Mae cynlluniau arbedion, os cânt eu cyflawni, yn elfen hanfodol o ran llywio perfformiad ariannol gwell; fodd bynnag, natur ailadroddus yr arbedion sy'n sicrhau bod y gwelliannau hynny'n gynaliadwy yn y blynyddoedd i ddod. Sylwaf fod disgwyl i'r gyfran o arbedion sy'n ailadroddus ar draws GIG Cymru ostwng o 79% yn 2018-19 i ddim ond 68% eleni.

Yn seiliedig ar y rhagolygon hyn, bydd tri bwrdd iechyd yn cynhyrchu diffygion ariannol o fewn y flwyddyn ar gyfer 2019-20. Bydd pedwar bwrdd iechyd yn methu yn eu dyletswydd ariannol gyntaf i fantoli'r cyfrifon dros gyfnod treigl o dair blynedd, fel y maent wedi gwneud ers cyflwyno'r dyletswyddau newydd o dan Ddeddf 2014.

Mae'r sefyllfa yr adroddwyd amdani ar 31 Rhagfyr felly wedi rhoi pwysau ar sefyllfa fantoli'r Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2019-20. Mae hefyd yn awgrymu y gall fod yn ymdrech i gyrff GIG Cymru fodloni disgwyliadau Llywodraeth Cymru i ddileu holl ddiffygion y byrddau iechyd erbyn 2020-21.

Rwyf yn nodi manylion pellach yn Atodiad 1.

Gwariant staffio asiantaeth y GIG

Mae GIG Cymru yn rhagweld ar hyn o bryd y bydd yn cofnodi ei wariant blynyddol uchaf erioed ar staff asiantaeth yn 2019-20.

£127 miliwn oedd gwariant y GIG ar staff asiantaeth mewn Byrddau Iechyd ac yn Ymddiriedolaethau'r GIG am naw mis cyntaf 2019-20, a rhagwelir y bydd yn codi i £169 miliwn erbyn 31 Mawrth 2020. Awgryma amcanestyniadau cyrff iechyd y caiff £128 miliwn o hyn (76%) ei wario ar staff llanw oherwydd swyddi gwag.

Rhagwelir y bydd gwariant ar staff asiantaethau nyrsio ledled Cymru yn 2019-20 yn codi o £12 miliwn (19%). Fodd bynnag, ymddengys bod a wnelo hyn yn bennaf â'r ddau gorff iechyd yr effeithiodd newidiadau ffiniau arnynt o 1 Ebrill 2019 - Cwm Taf Morgannwg a Bae Abertawe. Gellid yn rhesymol fod wedi disgwyl y byddai gostyngiad yn y gwariant ar asiantaethau nyrsio ym Mae Abertawe eleni, gan fod eu gwasanaethau wedi crebachu o tua 27%, ond nid yw'r lefelau gwariant gwirioneddol wedi newid ers y flwyddyn flaenorol.

Rwyf yn nodi manylion pellach yn Atodiad 2.

Hyderaf y bydd y wybodaeth hon o ddefnydd i'r Pwyllgor wrth iddo baratoi i dderbyn tystiolaeth lafar gan Lywodraeth Cymru yn ei gyfarfod ar 9 Mawrth.

Yn gywir

ADRIAN CROMPTON
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Atodiad 1: Cyllid GIG Cymru

Cyllid

Mae'r gyllideb ar gyfer GIG Cymru wedi cynyddu'n sylweddol rhwng 2018-19 a 2019-20. Heb addasu ar gyfer chwyddiant, mae'r gyllideb 'refeniw iechyd'[1] wedi tyfu o £7.3 biliwn yn 2018-19 i £7.9 biliwn, gyda chynnydd o £650 miliwn. Gan gymryd chwyddiant i ystyriaeth, mae'r gyllideb wedi cynyddu 6.8%. Hwn yw'r cynnydd mwyaf o bell ffordd yn y gyllideb yn y blynyddoedd diwethaf (Ffigur 1). Mae'r cynnydd hwn yn cynnwys arian ychwanegol sylweddol a ddyrannwyd yn ystod y flwyddyn. Daeth peth o'r cyllid o fewn y flwyddyn o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU i dalu am newidiadau i bensiynau, esgeulustod meddygol a thaliadau iechyd mewnfudo ledled y DU. Daeth rhywfaint o arian ychwanegol o gronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru, gan gynnwys £17 miliwn ar gyfer blaenoriaethau a phwysau o fewn y flwyddyn.

Ffigur 1: Cyllideb refeniw iechyd (termau real ar brisiau 2018-19)



Ffynhonnell: Offeryn data Cyllid GIG Cymru Swyddfa Archwilio Cymru

Mewn theori, dylai'r cynnydd hwn o 6.8% mewn termau real fod wedi gwneud mwy na chwmpasu'r galw o 3.2% i 3.9% mewn termau real a phwysau costau y mae'r

[1] Mae 'refeniw iechyd' yn cwmpasu'r cyllid yng nghyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer rhedeg gwasanaethau'r GIG o ddydd i ddydd, cymorth canolog a gweithgareddau iechyd cyhoeddus. Daw'r ffigurau yn y siart o ail gyllideb atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Sefydliad Iechyd wedi amcangyfrif bod y GIG yng Nghymru yn eu hwynebu bob blwyddyn. Yn ymarferol, fodd bynnag, ac fel y nodir yn fanylach isod, mae'r GIG wedi parhau i'w chael yn anodd ymdopi â'r pwysau hynny. Rhan o'r eglurhad am y sefyllfa bresennol yw nad yw'r holl arian ychwanegol yn y gyllideb wedi mynd i reoli'n uniongyrchol y pwysau presennol ar y gwasanaethau iechyd. Bu rhai dyraniadau untro sylweddol, gan gynnwys £170 miliwn i dalu am newidiadau pensiwn, £95 miliwn ar gyfer dyfarniadau cyflog a £52 miliwn i gefnogi gwell perfformiad, yn enwedig ar gyfer amseroedd aros dewisol.

At hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £192 miliwn yn ychwanegol i gefnogi ei huchelgais i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol a thrawsnewid gwasanaethau'n ehangach, fel yr esboniwyd yn Dyfodol Iachach i Gymru. Dyrannwyd peth o'r arian hwn yn uniongyrchol i lywodraeth leol i gefnogi gofal cymdeithasol neu cafodd ei rannu rhwng iechyd a gofal cymdeithasol a phartneriaid eraill drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl y bydd y buddsoddiad hwn yn esgor ar welliannau yn effeithiolrwydd cost y gwasanaethau iechyd a gofal yn y tymor hwy.

Perfformiad Ariannol

Ar 31 Rhagfyr 2019, rhagfynegodd GIG Cymru y byddai'r diffyg yn 2019-20 yn £72.3 miliwn. A derbyn bod y diffyg yr adroddwyd amdano ar y dyddiad hwnnw yn £65.9 miliwn yn barod, byddai angen perfformiad ariannol llawer gwell yn y tri mis olaf i gyrraedd y diffyg a ragfynegwyd. Os caiff ei gyrraedd, bydd hyn yn parhau'r duedd tuag at welliant a ddangosir yn Ffigur 2.

Ffigur 2: Alldro refeniw GIG Cymru: 2016-17 i 2019-20 (fel y rhagfynegwyd)



Ffynhonnell: Offeryn data Cyllid GIG Cymru Swyddfa Archwilio Cymru

Er bod hyn yn cymharu'n ffafriol ag alldro diffyg y llynedd o £96 miliwn, mae'n £12 miliwn yn fwy na'r diffyg a ragwelwyd ar ddechrau'r flwyddyn a £32 miliwn yn fwy na'r diffygion targed (cyfansymiau rheoli) oedd yn eu lle ar gyfer cyrff iechyd yn chwarter tri.

Dengys Ffigur 3 sut mae sefyllfa'r diffyg wedi symud yn erbyn y rhagolwg drwy'r flwyddyn.

Ffigur 3: Rhagolwg 2019-20 GIG Cymru o gymharu â'r targed



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o Adroddiadau Monitro Misol cyrff y GIG

Mae tri o gyrff y GIG yn rhagweld diffyg ar gyfer 2019-20, un yn llai nag yn 2018-19. O'r tri hyn, mae Byrddau Iechyd Betsi Cadwaladr a Hywel Dda, er eu bod yn dangos tueddiadau gwell, ill dau yn disgwyl mynd dros eu 'cyfansymiau rheoli' (diffygion blynyddol a gytunwyd ymlaen llaw gyda Llywodraeth Cymru) o £10 miliwn. Mae'r trydydd corff, Bwrdd Iechyd Bae Abertawe, yn rhagweld diffyg o £12.3 miliwn o'i gymharu â'r sefyllfa fantoli a gynlluniwyd ar ddechrau'r flwyddyn.

Ar sail y rhagolygon hyn, bydd bedwar Bwrdd Iechyd yn methu â chyflawni eu dyletswydd ariannol gyntaf o dan Ddeddf 2014 (mantoli dros gyfnod treigl o dair blynedd). Bydd diffyg cronnol GIG Cymru, ers cyflwyno'r hyblygrwydd ariannol hwn chwe blynedd yn ôl, hefyd yn cynyddu unwaith eto i ryw £590 miliwn.

Yn fwy cadarnhaol, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (sydd bellach â chynllun tair blynedd cymeradwy ar waith ac a gafodd ei ddaduwchgyfeirio o 'Ymyrraeth wedi'i Thargedu' yn ystod y flwyddyn) yn rhagweld y bydd yn mantoli o fewn y flwyddyn yn 2019-20, am y tro cyntaf mewn pedair blynedd.

Mae perfformiad yn erbyn dyletswyddau ariannol hyd yma wedi ei grynhoi yn Ffigur 4

Ffigur 4: Perfformiad cyrff y GIG yn erbyn dyletswyddau ariannol



Ffynhonnell: Offeryn data Cyllid GIG Cymru Swyddfa Archwilio Cymru

Cynlluniau Arbedion

Elfen allweddol o allu GIG Cymru i wella perfformiad ariannol yw nodi a chyflawni cynlluniau arbedion ailadroddus.

Dengys Ffigur 5, yn seiliedig ar ragolwg Rhagfyr 2019 ar gyfer 2019-20, bod yr arbedion blynyddol sy'n cael eu sicrhau yn lleihau a bod cyfran yr arbedion sy'n ailadroddus wedi gostwng eleni. Nodwn hefyd fod Llywodraeth Cymru, ar 31 Rhagfyr, wedi adrodd bod dau gorff iechyd eto i gwblhau'r arbedion a gynlluniwyd ar ddechrau'r flwyddyn.

Ffigur 5: Cyflawni arbedion GIG Cymru



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o Adroddiadau Monitro Misol cyrff y GIG

Sylwer:

Mae ein hofferyn data rhyngweithiol ar-lein [Saesneg a Cymraeg] yn darparu dadansoddiadau cymharol o wariant a sefyllfaoedd ariannol GIG Cymru. Diweddarwyd yr offeryn hwn yn ddiweddar â data monitro misol a gyflwynwyd gan gyrff iechyd unigol i Lywodraeth Cymru yn adrodd am wariant gwirioneddol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2019 a'r gwariant a ragwelid ar gyfer Ionawr, Chwefror a Mawrth 2020.

Atodiad 2 Gwariant y GIG ar staff asiantaeth

Fel y dangosir yn Ffigur 6, roedd gwariant ar asiantaethau wedi cyrraedd uchafbwynt o £164 miliwn gynt yn 2016-17. Gostyngodd y gwariant cyffredinol ar staff asiantaeth o £29 miliwn (17%) rhwng 2016-17 a 2017-18, ond mae tuedd o gynnydd blynyddol wedi ailgychwyn.

Yn 2018-19, cynyddodd gwariant ar asiantaethau o £8 miliwn (5.8%) a rhagwelir y bydd yn cynyddu o £25 miliwn (18%) yn 2019-20.

Ffigur 6: Cyfanswm gwariant y GIG yng Nghymru ar staff asiantaeth rhwng 2010-11 a 2019-20



Ffynhonnell: Gwariant ar staff asiantaeth yn ôl Offeryn data GIG Cymru Swyddfa Archwilio Cymru

Dengys Ffigur 7 y rhagwelir y bydd gwariant ar asiantaethau yn cynyddu ym mhob categori staff yn 2019-20, gyda'r cynnydd mwyaf ar staff Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Bydd y gyfran a ragwelir o'r cyfanswm o wariant ar asiantaethau, fydd yn cael ei wario ar feddygon a nyrsys yn 2019-20 (81%), yn gyson â'r blynyddoedd diwethaf. Rhagwelir y bydd y gyfran o wariant ar staff meddygol yn gostwng o 3% i 35%, tra bydd y gyfran a werir ar staff nyrsio yn parhau ar 46%.

Ffigur 7: Rhagolwg gwariant y GIG yng Nghymru ar staff asiantaeth yn ôl grŵp staff yn 2019-20, o'i gymharu â'r gwariant gwirioneddol yn 2018-19



Ffynhonnell: Gwariant ar staff asiantaethau yn ôl Offeryn data GIG Cymru Swyddfa Archwilio Cymru

Rhagwelir y bydd gwariant ar staff asiantaethau nyrsio ledled Cymru yn 2019-20 yn cynyddu o £12 miliwn (19%). Ymddengys bod a wnelo hyn yn bennaf â'r cyrff iechyd y mae'r newid ffiniau ym mis Mawrth 2019 wedi effeithio arnynt.

Dengys Ffigur 8 y rhagwelir y bydd gwariant yr asiantaethau nyrsio ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Bae Abertawe gyda'i gilydd ar gyfer 2019-20 yn £9 miliwn yn fwy na'r gwariant cyfunol yn y cyrff hynny y flwyddyn flaenorol.

Er y gellid disgwyl cynnydd o bosibl yng ngwariant Cwm Taf Morgannwg, wrth iddo ysgwyddo'r gwasanaethau a ddarperid gynt gan y bwrdd a elwir bellach yn Bae Abertawe, mae'n rhyfedd efallai nad yw gwariant Bae Abertawe wedi lleihau.

Ffigur 8: Rhagolwg gwariant ar asiantaethau nyrsio ar gyfer 2019-20 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe o'i gymharu â gwariant yn y cyrff a'u rhagflaenodd yn 2018-19

	BIP Bae Abertawe (Abertawe Bro Morgannwg gynt) £ miliwn	**BIP Cwm Taf Morgannwg (Cwm Taf gynt) £ miliwn**	**Cyfanswm £ miliwn**
Gwariant gwirioneddol 2018-29	12.1	7.0	19.1
Gwariant a ragwelir yn 2019-20	12.1	16.1	28.3
Cynnydd mewn gwariant	**0.04**	**9.1**	**9.2**

Ffynhonnell: Gwariant ar staff asiantaeth yn ôl Offeryn data GIG Cymru Swyddfa Archwilio Cymru

Yn genedlaethol, rhagwelir y bydd gwariant ar staff asiantaeth meddygol yn cynyddu o £5 miliwn (10%), ac mae'r mwyafrif ohono yn ymwneud â Byrddau Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Betsi Cadwaladr. Mae Aneurin Bevan hefyd yn darogan y bydd yn gwario £2 filiwn yn fwy ar staff asiantaethau nyrsio yn y flwyddyn ariannol hon.

Sylwer:

Mae ein hofferyn data rhyngweithiol ar-lein [Saesneg a Cymraeg] yn darparu dadansoddiadau cymharol o wariant asiantaeth yn ôl corff y GIG a fesul grŵp o staff. Diweddarwyd yr offeryn hwn yn ddiweddar â data monitro misol a gyflwynwyd gan gyrff iechyd unigol i Lywodraeth Cymru yn adrodd am wariant gwirioneddol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2019 a'r gwariant a ragwelid ar gyfer Ionawr, Chwefror a Mawrth 2020.